# PWYLLGOR CRAFFU BWRDD ADDYSG, SGILIAU A LLES

## CYFARFOD AML-LEOLIAD - SIAMBR Y CYNGOR PORT TALBOT A MICROSOFT TEAMS

| **Aelodau sy'n Bresennol:** | **Dydd Iau, 23 Tachwedd 2023** |
|---|---|

| | |
|---|---|
| **Is-gadeirydd:** | **Cynghorydd D.Thomas** |
| **Cynghorwyr**: | W.Carpenter, N.Goldup-John, J.Henton, R.Mizen, P.A.Rees, S.Renkes, P.Rogers a/ac R.W.Wood |
| **Aelodau Cyfetholedig sy'n Pleidleisio** | L. Newman |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | I.Guy, H.Lewis, C.Millis, R.Crowhurst, J.Burge, C.Saunders, C.Morris, , A.Spooner-Cleverly, K.Windsor-Brown, K.Jones, S.Griffiths, D.Evans, S.Griffiths, S.McCluskie a/ac P.Chivers, |
| **Gwahoddedigion y Cabinet:** | Cynghorwyr J.Hurley, N.Jenkins a/ac C.Phillips |

1. **CYHOEDDIAD Y CADEIRYDD**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

Cadarnhawyd y byddai'r pwyllgor yn craffu ar eitemau 10 a 13 o Agenda Bwrdd y Cabinet.

2. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

**Eitem 14 (Agenda'r Cabinet)**
Y Cyng. Phil Rogers - Personol - mae aelod o'r teulu'n mynd i Ysgol Gynradd Abbey
Y Cyng. Peter Rees - Personol - mae aelod o'r teulu'n mynd i Ysgol Gymraeg Bro Dur

3. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 28 Medi 2023 fel cofnod gwir a chywir.

4. **CRAFFU CYN PENDERFYNU**

**CSGA**

Gofynnodd yr aelodau a fyddai'r dosraniad di-rent dros dro ar gyfer cyfleusterau cyfrwng Cymraeg sy'n gweithredu yn adeiladau'r cyngor yn parhau.

Cadarnhaodd Cydlynydd y Blynyddoedd Cynnar fod y sefyllfa'n cael ei hasesu a'i gwerthuso ar hyn o bryd i sicrhau bod y trefniant yn deg. Cyflwynir adroddiad i Fwrdd y Cabinet yn y flwyddyn newydd. Nodwyd bod y trefniant presennol wedi bod yn fuddiol o ran y CSGA.

Cyfeiriodd aelodau at dudalen 182 yr adroddiad a'r gostyngiad a adroddwyd yn nifer y disgyblion sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg mewn addysg ôl-16, a gofynnwyd a roddwyd ystyriaeth i gynnig addysg ôl-16 cyfrwng Cymraeg yng nghampws Bro Dur.

Cadarnhaodd Pennaeth y Gwasanaethau Cefnogi a Thrawsnewid yr ystyriwyd darpariaeth ôl-16 yng nghampws Bro Dur rywbryd yn y dyfodol ond ni ellir darparu unrhyw fanylion ar hyn o bryd. Mae amrywiaeth eang o gyfleoedd galwedigaethol ac academaidd ôl-16 yn Ystalyfera ac mae'r staff yng nghampws Bro Dur yn gweithio gyda disgyblion o ran pontio.

Yn dilyn craffu, nododd yr aelodau'r eitem er gwybodaeth.

**Dangosyddion Perfformiad Chwarter 2 23/24 - Cyfarwyddiaeth yr Amgylchedd**

Cyfeiriodd yr aelodau at dudalen 263 yr adroddiad a gofynnwyd am yr hyn a wneir i reoli unrhyw risgiau mewn perthynas â chyflenwadau dŵr preifat nes bydd y labordy newydd wedi cymryd y contract.

Cadarnhaodd y Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd fod nifer cyfyngedig o gyflenwadau dŵr preifat ar draws Castell-nedd Port Talbot y mae angen iddynt gynnal asesiadau risg rheolaidd bob blwyddyn. Mae'r broblem profi o ran y labordy bellach wedi'i datrys a

disgwylir y bydd y targed yn cael ei gyflawni erbyn diwedd chwarter tri/dechrau chwarter pedwar.

Cyfeiriodd aelodau at dudalen 264, eitem 5 yr adroddiad, a gofynnwyd am y rheswm pam na chyflawnwyd targed chwarter dau sef 55% ac am ragor o wybodaeth mewn perthynas â'r aelod staff a gollwyd.

Cadarnhaodd Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd fod gweithiwr arall wedi cymryd lle'r aelod o staff a gollwyd. Mae'r DPA yn berthnasol i'r gwaith safonau bwyd a bwyd anifeiliaid a wneir gan y Tîm Safonau Masnach; mae Swyddogion Iechyd Anifeiliaid yn gyfrifol am arolygu'r systemau hylendid bwyd ar ffermydd ac mae Swyddogion Safonau Masnach yn arolygu gwneuthurwyr bwyd anifeiliaid a manwerthwyr.

Mae'r Peilot Asesiad Risg Bwyd a grybwyllwyd yn yr adroddiad yn cael ei ddatblygu gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd â'r nod o gyflwyno'r cynllun newydd ar draws Cymru. Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd yn cydnabod bod y gallu a'r adnoddau o fewn awdurdodau lleol ar draws Cymru'n gyfyngedig ac mae'r cynllun newydd yn anelu am ddefnydd mwy effeithlon ac effeithiol o adnoddau gyda dull a dargedir at fusnesau risg uchel. Disgwylir y bydd arbedion effeithlonrwydd gwasanaeth tymor hwy y bydd pob awdurdod lleol yn buddio o ganlyniad iddynt pan fydd y cynllun peilot wedi'i sefydlu; bydd ymrwymiad i'r peilot yn y cam hwn yn gyfle da i gael dylanwad ar sut mae'n cael ei sefydlu a'i gyflwyno yn y dyfodol. Nodwyd yn y tymor byd y byddai'r peilot yn cael effaith ar berfformiad.

Yn dilyn craffu, nodwyd yr eitem.

5. **COFNOD GWEITHREDU'R PWYLLGOR**

Nodwyd yr eitem hon.

6. **BLAENRAGLEN WAITH 2023/24**

Nodwyd yr eitem hon.

7. **EITEMAU BRYS**

Nid oedd unrhyw eitemau brys.

**Cynghorydd D.Thomas**
**CADEIRYDD**